Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Rathbone Training**
**Llawr Gwaelod**
**Trafalgar House**
**5 Fitzalan Place**
**Caerdydd**
**CF24 0ED**
**Y Deyrnas Unedig**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2015**

## Cyd-destun

Unodd Rathbone Training â Newcastle College Group (NCG) yn Ionawr 2012, ac mae'n ddarparwr cenedlaethol sy'n cyflwyno darpariaeth trwy 47 o ganolfannau hyfforddiant ledled y DU. Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae wyth canolfan hyfforddiant yn ne-ddwyrain Cymru, de-orllewin Cymru a chanolbarth Cymru.

Ar hyn o bryd, mae 526 o ddysgwyr ar raglenni dysgu yn y gwaith yng Nghymru; mae 193 o ddysgwyr ar raglenni Ymgysylltu, 193 o ddysgwyr ar raglenni Lefel 1, a 140 o ddysgwyr ar raglenni Prentisiaeth. Mae'r darparwr yn defnyddio pedwar isgontracwr i gyflwyno hyfforddiant prentisiaeth. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Vivisum Solutions Ltd
- Kwik Fit (GB) Ltd
- Intraining Group Ltd
- Enhanced Care Training Ltd

Mae Rathbone Training Cymru yn cyflwyno'r rhaglenni dysgu yn y gwaith a'r cymwysterau canlynol ledled Cymru:

- medrau hanfodol
- iechyd a diogelwch
- cyflogadwyedd
- rhaglenni galwedigaethol cenedlaethol lefel 1 mewn manwerthu, gweinyddu busnes a gofal plant

Mae'r darparwr hwn yn gweithio mewn cyd-destun lle mae gan lawer o ddysgwyr rwystrau sylweddol rhag dysgu, ac maent wedi gadael dysgu sy'n cael ei gynnig gan ddarparwyr eraill. Mae llawer ohonynt wedi cael profiadau negyddol o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Da** |

### Perfformiad presennol

At ei gilydd, mae cyfraddau llwyddo dysgwyr o ran cyflawni eu gweithgareddau dysgu neu eu llwybrau dilyniant yn gwella. Mae cyfraddau'r dysgwyr sy'n ennill eu cymwysterau fframwaith islaw'r cymharydd cenedlaethol.

Mae dysgwyr yn mwynhau eu dysgu ac mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd o raglenni ymgysylltiad i gymhwyster galwedigaethol cenedlaethol lefel 1.

Mae ansawdd addysgu, hyfforddiant ac asesu yn dda. Mae tiwtoriaid yn ymestyn ac yn herio dysgwyr yn fedrus i weithio tuag at gyflawni eu llawn botensial. Maent yn defnyddio ystod eang o adnoddau i ennyn diddordeb dysgwyr a chynnal eu cymhelliant mewn sesiynau sy'n cael eu haddysgu. Mae pob tiwtor ac aseswr yn deall y rhwystrau niferus y mae dysgwyr yn eu hwynebu ac yn rhoi cymorth da iawn iddynt.

Mae Cyfarwyddwr Cymru, â chymorth NCG, yn darparu cyfeiriad strategol clir. Mae'r darparwr yn gosod targedau effeithiol ar gyfer Rheolwyr Rhaglenni Ieuenctid (RhRhI) ac yn dwyn rheolwyr i gyfrif am eu dull cyflwyno. Mae strategaethau gwella ansawdd ar waith, sy'n dechrau dangos gwelliannau ym mhob agwedd ar ddarpariaeth.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r darparwr yn dda oherwydd:

- Mae safonau dysgwyr yn gwella
- Mae gan yr uwch dîm arweinyddiaeth weledigaeth glir ar gyfer gwella ansawdd ar draws y ddarpariaeth gyfan
- Mae cyfathrebu agored ac effeithiol ar draws y darparwr
- Mae strategaethau da ar waith i wella addysgu, hyfforddi ac asesu ymhellach
- Mae swyddogaeth hyfforddi'r Academi Arweinyddiaeth yn cynorthwyo rheolwyr newydd a phresennol ag ystod eang o fedrau
- Mae nifer o strategaethau adnewyddu arfaethedig i uwchraddio technoleg gwybodaeth ac adeiladau

## Argymhellion

A1 Gwella cyfraddau'r dysgwyr sy'n cyflawni eu gweithgareddau dysgu, cymwysterau a fframweithiau ymhellach

A2 Sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd gwell i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ddatblygu medrau iaith Gymraeg dysgwyr

A4 Gwella'r defnydd o adolygiadau cynnydd i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr

A5 Gwneud defnydd gwell o gerrig milltir a thargedau smart ym mhob cynllun datblygu ansawdd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd arolygydd cyswllt Estyn yn monitro'r cynnydd a wneir yn erbyn yr argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Rhaid i gyfran uchel o ddysgwyr y darparwr oresgyn rhwystrau sylweddol rhag dysgu. Mae llawer ohonynt wedi gadael dysgu sy'n cael ei gynnig gan ddarparwyr eraill ac wedi cael profiadau negyddol o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Nid yw llawer ohonynt wedi datblygu'r medrau cymdeithasol neu hanfodol sy'n eu galluogi i elwa ar gyfleoedd, hyd yn hyn. Tra eu bod gyda Rathbone, mae llawer ohonynt yn goresgyn problemau sy'n bygwth eu gallu i wneud cynnydd da.

Mae'r gyfradd llwyddo ar gyfer Prentisiaid Sylfaen yn gwella, ond mae'n anfoddhaol o hyd, gan godi o 45% yn 2012-2013 i 74% yn 2013-2014. Fodd bynnag, ychydig iawn o'r dysgwyr hyn sydd, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi symud ymlaen o raglenni Ymgysylltu i ddarpariaeth â chyflogwr. Felly, mae'r dysgwyr hyn wedi gwneud cynnydd da o fannau cychwyn isel.

Dros y tair blynedd diwethaf (o ystyried data 2013-2014 a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, ond nad yw wedi ei gyhoeddi hyd yn hyn), bu tuedd ar i fyny yn nilyniannau cadarnhaol dysgwyr. At ei gilydd, mae deilliannau cadarnhaol wedi gwella 17 pwynt canran yn ystod y cyfnod hwn. Y llynedd, roedd dilyniant Lefel 1 yn 61%, sydd ychydig yn is na'r cymharydd cenedlaethol, sef 65%. Roedd dilyniant cadarnhaol o ddarpariaeth Ymgysylltu yn dda, sef 80% o gymharu â'r cymharydd cenedlaethol, sef 69%. Mae data'r darparwr ar gyfer y flwyddyn bresennol yn awgrymu bod y carfanau cynnar o ddysgwyr eleni wedi parhau i symud ymlaen ar gyfraddau gwell.

Dros yr un cyfnod, mae cyfraddau llwyddo wedi gwella'n sylweddol ac, at ei gilydd, maent yn ddigonol. Mae'r gyfradd llwyddo ar gyfer dysgwyr ymgysylltu wedi gwella 10 pwynt canran i 88%, ac ar gyfer dysgwyr Lefel 1, mae wedi gwella 38 pwynt canran i 80%. Ar draws canolfannau'r darparwr, mae anghysondeb o hyd yng nghyfraddau llwyddo'r dysgwyr, ond mae hyn wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hefyd.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai o grwpiau sy'n agored i niwed, yn gwneud cynnydd da tuag at eu nodau dysgu, ac maent yn glir ynghylch faint o gynnydd a wnaed ganddynt. Mae llawer o'r rhai sydd wedi eu lleoli â chyflogwyr yn datblygu lefelau da o fedrau ymarferol ac yn dangos dealltwriaeth dda o ofynion y gweithle, ac yn rhoi'r hyn y maent wedi ei ddysgu mewn sesiynau yng nghanolfannau Rathbone ar waith. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu hunanhyder. Mae ychydig ohonynt yn cynhyrchu gwaith o ansawdd uchel i gyflogwyr ac mae llawer ohonynt yn cael adborth cadarnhaol gan oruchwylwyr yn y gweithle.

Mae dysgwyr ar bob lefel yn datblygu medrau cyfathrebu da. Mae cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n gwella eu medrau hanfodol. Mae'r rhai sy'n ymuno â'r rhaglen â medrau sylfaenol gwael iawn yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael, ac mae'r rhai sy'n manteisio ar y cymorth hwn yn gwella eu safonau darllen, ysgrifennu a rhifedd. Nid yw pob un o'r dysgwr y mae angen iddynt wella yn derbyn y cymorth sydd ei angen i ddatblygu'r medrau cyflogaeth pwysig hyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cynhyrchu gwaith o safon dda mewn sesiynau dysgu, ac maent yn ymfalchïo yn eu gwaith. Maent yn canolbwyntio'n dda ar y tasgau y mae tiwtoriaid yn eu gosod ac yn cynorthwyo ei gilydd yn dda yn y dosbarth. Maent yn dysgu i weithio'n annibynnol ac mewn timau. Mewn llawer o sesiynau, mae tiwtoriaid yn llwyddo i annog dysgwyr i wneud penderfyniadau gyda'i gilydd.

Mewn un ganolfan, caiff dysgwyr Cymraeg eu hiaith gyfleoedd digonol i ddefnyddio Cymraeg achlysurol yn y gwaith. Caiff pob un o'r dysgwyr gyfle i gael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, ar draws y darparwr, nid yw dysgwyr yn datblygu gwerthfawrogiad o werth y Gymraeg fel medr cyflogaeth yn gyson.

**Lles: Da**

Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus yn eu hamgylcheddau hyfforddi a dysgu, ac maent yn rhoi sylw da i iechyd a diogelwch.

Mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda o fanteision bwyta'n iach. Maent yn cyfranogi mewn creu posteri bywiog ar gyfer y waliau yn eu canolfannau. Mae llawer o ddysgwyr yn cadw dyddiaduron bwyd i fesur y gwahaniaeth rhwng bwyd iachus a bwyd nad yw'n iachus. Caiff dysgwyr sy'n mynychu sesiynau heb fwyd nac arian eu cynorthwyo'n dda a gallant fynychu clwb brecwast ym mhob canolfan hyfforddiant.

Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r lefelau uchel o gymorth gan eu haseswyr, ac mae hyn yn eu helpu i fynychu'n rheolaidd.

Mae dysgwyr yn dangos ymddygiad da ac yn trin staff a'u cyfoedion â pharch. Maent yn mwynhau eu rhaglenni ac yn dangos ymrwymiad cryf ac awydd i lwyddo.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn codi arian ac yn cefnogi mentrau cymunedol lleol ac elusennau rhyngwladol. Mae'r rhain yn cynnwys gardd gymunedol, paentio ac addurno, cefnogi banciau bwyd lleol, llenwi bocsys esgidiau ag eitemau ar gyfer elusen, a chael eu noddi i feicio milltiroedd.

Mae dysgwyr yn cyfrannu'n dda at benderfyniadau yn eu canolfannau. Maent yn mynychu fforymau dysgwyr ac yn cydweithio â thiwtoriaid i nodi eu pryderon. Cânt adborth llawn ar eu mewnbwn.

Mae gan lawer o ddysgwyr rwystrau sylweddol rhag dysgu ac maent yn siarad am eu haddysg a'u hyfforddiant aflwyddiannus yn y gorffennol. Mae eu profiad presennol â'r darparwr wedi rhoi hyder newydd iddynt ynddyn nhw eu hunain a'u gallu.

Mae pob dysgwr yn dangos medrau siarad a gwrando da. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwella eu dysgu a'u cynnydd yn dda. Mae llawer ohonynt yn datblygu eu hunan-barch ac yn dysgu medrau sy'n eu helpu wrth iddynt fynychu cyfweliadau ar gyfer swyddi.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r darparwr yn cyflwyno ystod eang o raglenni sy'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned. Gwnânt ddefnydd da o wybodaeth am y farchnad lafur leol, a chaiff y broses hon ei chynorthwyo'n dda gan Reolwyr Rhaglenni Ieuenctid (RhRhI). Mae'r darparwr yn ymgysylltu'n dda â chyflogwyr i lunio a llywio cynllunio'r cwricwlwm.

Dros nifer o flynyddoedd, mae'r darparwr wedi datblygu ystod eang o leoliadau cyflogaeth o ansawdd da ledled Cymru. Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn gefnogol ac yn cydweithio'n dda â'r darparwr a dysgwyr i gynllunio a chyflwyno dysgu yn y gweithle. Mae cyflogwyr yn cadarnhau bod llawer o ddysgwyr wedi gwella eu medrau dros amser.

Mae'r darparwr yn cydweithio'n agos â Gyrfa Cymru i ddarparu'r rhaglenni mwyaf addas i ddysgwyr. Mae'r Rheolwyr Rhaglenni Ieuenctid yn cydweithio'n agos iawn â Gyrfa Cymru i deilwra rhaglenni i ddysgwyr unigol. Mae'r darparwr yn annog dysgwyr i gyflawni prosiectau cymunedol fel rhan o'u rhaglenni dysgu, fel Apêl Bocsys Esgidiau y Nadolig.

Mae'r darparwr yn cyflwyno Sgiliau Hanfodol Cymru (ESW) trwy ymgorffori'r rhaglen yng ngweithgareddau arferol y dysgwr, p'un a yw hynny yn yr ystafell ddosbarth neu ar leoliad gwaith. Mae'r darparwr yn cynnig sesiynau un-i-un ychwanegol i gynnal cynnydd dysgwyr mewn ESW. Mae'r darparwr yn annog dysgwyr i ddefnyddio'r medrau y maent newydd eu caffael wrth iddynt gymryd rhan mewn rhaglenni cymunedol, fel cynorthwyo banciau bwyd, lle maent yn datblygu eu medrau gweithio fel tîm. Mae tiwtoriaid yn defnyddio themâu cyfredol yn ystod sesiynau trafod â dysgwyr i gyflwyno ESW. Er enghraifft, maent yn defnyddio cân Band Aid i godi materion yn ymwneud â thlodi ac anghydraddoldeb.

Yn ddiweddar, mae'r darparwr wedi adolygu ei Gynllun Iaith Gymraeg. Mae gan y fersiwn newydd ffocws cliriach ar dargedau i staff a dysgwyr. Mae'r darparwr yn dechrau gwneud cynnydd o ran datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru. Caiff ymweliadau addysgiadol i Sain Ffagan eu trefnu i ymestyn dealltwriaeth dysgwyr o hanes Cymru.

Mae ychydig o diwtoriaid yn cyflwyno sesiynau wedi eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y rhan fwyaf o ganolfannau, mae arddangosiadau wal da wedi eu llunio gan y dysgwyr, sy'n cynnwys geiriau Cymraeg a hanes a diwylliant Cymru.

Mae dysgwyr yn cael cyfle i ddysgu am ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Er enghraifft, mae dysgwyr yn trafod yr argyfwng Ebola yn Affrica. Mae llawer o aseswyr yn trafod egwyddorion Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) â dysgwyr yn ystod adolygiadau, ond yn rhy aml, mae hyn ar lefel arwynebol

## Addysgu: Da

At ei gilydd, mae safon hyfforddi, addysgu ac asesu yn dda. Mae gan diwtoriaid ac aseswyr wybodaeth bynciol dda, medrau galwedigaethol addas a gwybodaeth ddiwydiannol. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn dda i gynllunio eu sesiynau hyfforddi. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn defnyddio cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi manwl. Mae gan diwtoriaid a chynorthwywyr dosbarth ddisgwyliadau uchel iawn ar gyfer eu dysgwyr. Maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd i roi cymorth effeithiol i ddysgwyr yn ystod sesiynau wedi eu haddysgu. Mae tiwtoriaid yn ymestyn ac yn herio eu dysgwyr mewn modd medrus a sensitif i weithio tuag at gyflawni eu llawn botensial. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn llunio eu sesiynau wedi'u haddysgu i fod yn symbylol ac yn ddifyr. Maent yn cyflwyno sesiynau addysgu a hyfforddi o ansawdd uchel iawn sy'n croesawu ac yn cyfoethogi dysgu. Mae tiwtoriaid yn defnyddio ystod eang o adnoddau rhyngweithiol i ennyn diddordeb dysgwyr a chynnal eu cymhelliant yn y dosbarth. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymddwyn yn dda mewn sesiynau wedi'u haddysgu, yn mynychu'n rheolaidd ac yn parchu eu cyfoedion a'u tiwtoriaid. Maent yn dysgu amrywiaeth o fedrau newydd sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer byd gwaith.

Mae pob un o'r tiwtoriaid a'r aseswyr yn dechrau datblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid yw staff yn cywiro gwallau sillafu a gramadegol yng ngwaith ysgrifenedig dysgwyr bob tro.

Mae gan diwtoriaid ac aseswyr berthynas dda iawn â chyflogwyr, sy'n cefnogi anghenion dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o staff hyfforddi yn cynnal adolygiadau cynnydd rheolaidd â'u dysgwyr. Maent yn rhoi sylw da i adolygu'r targedau a osodwyd yn yr ymweliad diwethaf, a gallant drafod â dysgwyr y medrau newydd y maent wedi eu dysgu.

Mae arferion asesu yn amrywio. Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn deall sut y cânt eu hasesu ac mae ganddynt waith o safon ac amrywiaeth dda yn eu portffolios NVQ. Mae aseswyr yn defnyddio technegau holi da ac yn rhoi adborth adeiladol i ddysgwyr ar ddiwedd eu hasesiad.

Mae aseswyr yn llenwi eu systemau olrhain unigol er mwyn sicrhau bod dysgwyr ar y trywydd iawn i gyflawni. Mae'r systemau hyn yn bwydo i system olrhain electronig ganolog i fonitro cynnydd dysgwyr. Gwellwyd y broses ddilysu fewnol yn ddiweddar, ac mae dilyswyr mewnol yn ymweld â chanolfannau hyfforddi yn rheolaidd i gynorthwyo aseswyr a Rheolwyr Rhaglenni Ieuenctid â'r prosesau asesu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r darparwr yn hyrwyddo iechyd a lles yn dda trwy ystod dda o ddulliau. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau sefydlu a gwybodaeth gan asiantaethau allanol, er enghraifft mewn iechyd rhyw ac ymwybyddiaeth o gyffuriau. Mae dysgwyr yn dylunio posteri ac arddangosiadau eraill ar gyfer y waliau, gan ddangos dealltwriaeth dda o fwyta'n iach a ffyrdd iach o fyw. Mae gwaith dysgwyr yn dangos tystiolaeth o'r ddealltwriaeth hon. Mae dysgwyr, y mae rhai ohonynt yn byw'n annibynnol ar incwm isel, yn elwa ar ddarpariaeth clybiau brecwast ym mhob un o'r canolfannau, lle mae bwydydd iach ar gael i bob dysgwr.

Mae gan y darparwr broses sefydlu dda ar gyfer ei ddysgwyr. O ganlyniad, mae dysgwyr yn deall y cymorth sydd ar gael iddynt gan y darparwr ac asiantaethau allanol. Mae pecyn sefydlu cynhwysfawr i ddysgwyr yn atgyfnerthu'r wybodaeth hon.

Mae'r darparwr yn ymrwymo i sicrhau amgylchedd gwaith iach ar gyfer pob un o'i ddysgwyr a'i staff, ac yn ddiweddar, mae'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi llofnodi datganiad o egwyddorion ar iechyd a diogelwch sy'n tanlinellu'r ymrwymiad hwn. Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau clir ar gyfer iechyd a diogelwch, ac mae'n monitro iechyd a diogelwch lleoliadau gwaith yn systematig. Caiff dysgwyr gwrs sefydlu cynhwysfawr ar iechyd a diogelwch, ac mae trafodaeth am weithdrefnau sy'n berthnasol i leoliad gwaith y dysgwr yn cael ei gynnal yn ystod adolygiadau cynnydd.

Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu. Mae'r holl staff yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn poeni am ddiogelwch dysgwr. Mae'r darparwr yn cofnodi cynnydd digwyddiadau diogelu yn glir ac yn adrodd ar y rhain yn briodol. Mewn ychydig o achosion, mae dogfennau adolygu yn annog tiwtoriaid i drafod iechyd a diogelwch, a diogelu fel materion cysylltiedig.

Mae dysgwyr yn cwblhau asesiad defnyddiol o'r rhwystrau posibl rhag dysgu wrth iddynt ymuno â'u rhaglen. Mae Rheolwyr Rhaglenni Ieuenctid, tiwtoriaid ac aseswyr yn rhannu'r wybodaeth hon ac yn ei defnyddio'n dda i ddatblygu rhaglenni dysgu unigol. Mae tiwtoriaid yn rhoi pwyslais cryf ar yr angen am ymddygiad, presenoldeb a phrydlondeb da mewn canolfannau ac ar leoliad gwaith, ac maent yn monitro hyn yn ofalus. Mae'r darparwr yn cynorthwyo dysgwyr yn effeithiol os byddant yn cael problemau â'u presenoldeb a'u prydlondeb. Mewn ychydig o achosion, mae hyn wedi cynnwys addasu amserlenni dysgwyr i ganiatáu ar gyfer dylanwadau allanol, fel cyfrifoldebau gofalu. Mae'r cyfryw gymorth yn galluogi'r dysgwyr hyn i gwblhau eu rhaglenni.

Mae pob un o'r dysgwyr yn ymgymryd ag asesiadau cychwynnol ac asesiadau diagnostig wrth iddynt ddechrau ar eu rhaglenni. Mae cymorth medrau sylfaenol ar gael ym mhob canolfan ac mae dysgwyr yn ymwybodol o'r ddarpariaeth hon, er bod ychydig iawn ohonynt wedi dewis manteisio ar y cymorth hwn. Mae'r darparwr yn sicrhau bod cymorth arbenigol ar gael i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a nodwyd.

Mae dysgwyr sy'n tynnu at ddiwedd eu rhaglen yn cael cyngor ac arweiniad da ar eu camau nesaf gan Gyrfa Cymru. Hefyd, maent yn mynychu clybiau swyddi yn adeiladau'r darparwr. Mae'r clybiau hyn yn llwyddiannus o ran helpu dysgwyr i gynyddu eu medrau cyflogadwyedd, er enghraifft eu helpu i ysgrifennu *curriculum vitae* a llythyrau cais, a'u helpu â medrau cyfweld.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan y darparwr ethos cryf o gydraddoldeb ac amrywiaeth, sy'n cael ei ddangos trwy bolisïau a gweithdrefnau effeithiol. Mae Rheolwyr Rhaglenni Ieuenctid a staff yn monitro ac yn cael gwared â phob math o wahaniaethu mewn canolfannau hyfforddi ac yn y gweithle.

Mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda o gydraddoldeb ac amrywiaeth ac maent yn gwybod pwy y dylent fynd atynt os oes ganddynt broblemau. Trefnwyd wythnos gwrthfwlio ym mhob canolfan i amlygu'r mathau hyn o faterion.

Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn nodweddion da mewn llawer o ganolfannau hyfforddi. Mae staff a dysgwyr yn cyfrannu'n weithredol at ystod o raglenni cymunedol, er enghraifft gardd gymunedol, banciau bwyd ac addurno i'r henoed.

Yn gyffredinol, mae canolfannau hyfforddi mewn lleoliadau da, fel canol trefi ac ar y stryd fawr, ac maent yn hawdd i ddysgwyr eu cyrraedd. Yn gyffredinol, mae gan ganolfannau hyfforddiant adnoddau da. Fodd bynnag, mae rhai canolfannau'n fach ac mae ganddynt ystafelloedd cyfyngedig. Mae ystafelloedd dosbarth yn lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Uwchraddiwyd dwy ganolfan hyfforddi yn ddiweddar fel rhan o raglen adnewyddu a gynlluniwyd.

Mae bron pob un o'r canolfannau hyfforddi yn arddangos enghreifftiau da o waith a phrosiectau'r dysgwyr eu hunain. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwaith ar fwyta'n iach, diwylliant Cymru, ADCDF ac iechyd a diogelwch. Mewn un canolfan hyfforddi, mae dysgwyr wedi cwblhau gwaith celf wal addurniadol yn yr ardal seibiant. Mae waliau ystafelloedd dosbarth yn cynnwys posteri a hysbysfyrddau, ac mae ganddynt arddangosiadau da sy'n ymwneud â medrau llythrennedd a rhifedd a phosteri dwyieithog sy'n darparu amgylchedd dysgu symbylol a lliwgar.

Mae lleoliadau gwaith yn cynnig cyfleoedd da i ddysgwyr ddatblygu eu medrau galwedigaeth ac ymarferol. Yn gyffredinol, maent o safon dda a chanddynt ystafelloedd hyfforddi sydd wedi eu dodrefnu'n dda, a mynediad da at TGCh.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae Rathbone Training Cymru yn rhan o Newcastle College Group (NCG). Mae NCG yn cynorthwyo'r darparwr yn dda ac mae wedi canoli nifer o'i swyddogaethau allweddol er mwyn sicrhau y gall ei reolwyr elwa ar arbenigedd oddi mewn i'r grŵp a lleihau dyblygu, er enghraifft adnoddau dynol, caffael adeiladau a swyddogaethau cynnal a chadw. Ar gyfer y gwasanaethau hyn, mae Rathbone Training Cymru yn talu ffi i'r grŵp, sy'n cynrychioli arbediad sylweddol o gymharu â chyflogi eu staff eu hunain ac yn rhoi mantais arbenigedd mewnol iddynt.

Dros y tair blynedd diwethaf, bu NCG yn arbennig o effeithiol o ran cynorthwyo Rathbone Training Cymru i reoli ei hun allan o ddiffyg ariannol sylweddol. Datblygodd a gweithredodd Cyfarwyddwr Cymru, y Rheolwr Gyfarwyddwr a NCG gynllun adfer cynhwysfawr a arweiniodd at y sefyllfa ariannol sefydlog bresennol.

Mae Cyfarwyddwr Cymru yn gyfrifol am gyfeiriad strategol a rheoli contract dysgu yn y gwaith AdAS. Mae'n darparu arweinyddiaeth glir yng Nghymru ac yn cael lefel dda o gymorth a her gadarn gan y Rheolwr Gyfarwyddwr. Yn ddiweddar, ailstrwythurwyd staff Rathbone Training Cymru, gan arwain at benodi cyfarwyddwr perfformiad a

phennaeth addysgu, dysgu ac asesu. Mae'r penodiadau i'r rolau hyn yn dechrau sbarduno gwelliant yn y meysydd allweddol hyn.

Mae gan Reolwyr Rhaglenni Ieuenctid a'u staff rolau a chyfrifoldebau sydd wedi eu diffinio a'u deall yn glir. Maent yn dangos dealltwriaeth glir o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i sicrhau gwelliant mewn llinynnau allweddol o'r busnes, gan gynnwys y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni.

Mae'r darparwr wedi cyflwyno ac yn defnyddio proses gynhwysfawr ar gyfer adolygu perfformiad staff i fonitro a gwella perfformiad rheolwyr a staff. Mae'r darparwr yn defnyddio'r broses i asesu perfformiad unigol yn gywir, yn gosod amcanion clir ar gyfer gwella, ac yn nodi anghenion hyfforddi a datblygu. Mae uwch reolwyr a Rheolwyr Rhaglenni Ieuenctid wedi defnyddio'r broses adolygu hon yn arbennig o dda i nodi, herio a mynd i'r afael â thanberfformiad staff.

Mae cyfathrebu ar draws y darparwr wedi gwella'n sylweddol dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae Rheolwyr Rhaglenni Ieuenctid a staff yn cael gwybodaeth reolaidd a chynhwysfawr am ddarpariaeth Cymru a pherfformiad cenedlaethol y DU ar ffurf cylchlythyrau a bwletinau.

Mae rheolwyr yn rhoi ffocws craff ar ddefnyddio data cywir ac amserol yn ymwneud â pherfformiad dysgwyr. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth gymharol am ba for dda y mae pob un o'r canolfannau hyfforddi yn perfformio o gymharu â darparwyr hyfforddiant eraill yng Nghymru.

Mae'r darparwr wedi ymateb yn dda i flaenoriaethu Cymru a blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant. Mae'n cyfrannu'n effeithiol at ystod eang o fentrau lleol a chenedlaethol, fel Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a phrosiect "Gweithio Darbodus" Llywodraeth Cymru.

Mae llywodraethu'r darparwr yn gadarn ac yn ddylanwadol. Mae gan Fwrdd y Llywodraethwyr a'r Ymddiriedolwyr weledigaeth glir ar gyfer y darparwr. Maent yn rhoi cymorth effeithiol a her drylwyr i ddarpariaeth Cymru ar nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol, gan gynnwys safonau a chyllid.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan y darparwr brosesau hunanasesu cadarn ar waith. Caiff staff eu cynnwys mewn llunio adroddiadau hunanasesu (AHAau) lleol, sy'n bwydo AHA rhanbarthol ar gyfer gweithrediadau'r darparwr yng Nghymru. Mae'r AHA yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella'n gywir ac yn cyfateb yn dda i ganfyddiadau arolygwyr. Mae meysydd i'w gwella yn bwydo'r cynllun datblygu ansawdd yn effeithiol, a chânt eu nodi mewn dogfennau cynllunio strategol hefyd. Yn yr AHA, caiff data ei ddefnyddio'n effeithiol i fonitro tueddiadau mewn perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol, er bod ei brif ffocws meincnodi yn erbyn categorïau AdAS, a rhoddir llai o bwys ar gymaryddion cenedlaethol a pherfformiad darparwyr eraill.

Mae gan y darparwr brosesau da ar gyfer gwrando ar ei ddysgwyr. Mae fforymau dysgwyr misol yn casglu adborth dysgwyr ar raglenni a syniadau ar gyfer gwella, sy'n cael eu rhoi i'r Ymgynghorwyr Cyfranogiad Ieuenctid. Mae cynhadledd ieuenctid

genedlaethol, sy'n cael ei threfnu'n flynyddol gan y darparwr, yn mynd â dysgwyr o'i ganolfannau ledled y DU i ffwrdd am bum niwrnod i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Caiff yr uwch dîm arweinyddiaeth ei ddwyn i gyfrif gan ddysgwyr am gynnydd o ran cyflawni'r gwelliannau hyn trwy gyfarfodydd adolygu ansawdd rheolaidd, lle maent yn trafod y rhesymau pam y cymerwyd camau gweithredu, neu beidio, i fynd i'r afael â'r gwelliannau hyn.

Mae arolwg Llais y Dysgwr Cymru yn nodi cyfradd boddhad cyffredinol dysgwyr sydd ychydig yn uwch na meincnod y sector. Fodd bynnag, mae ymatebion dysgwyr islaw meincnod y sector ar gyfer 'da iawn' ym mwyafrif y cwestiynau. Mae'r darparwr yn defnyddio arolwg dysgwyr ychwanegol a gomisiynwyd gan sefydliad allanol, ac mae wedi defnyddio cyfres o gwestiynau gwahanol i ddysgwyr; mae hyn yn dangos lefel uchel o foddhad dysgwyr.

Yn ddiweddar, mae'r darparwr wedi cryfhau prosesau arsylwi ar gyfer addysgu a dysgu; mae'r rhain wedi eu hymestyn i gynnwys adolygiadau ac asesiadau yn y gweithle. Caiff yr holl staff cyflwyno eu harsylwi'n flynyddol i asesu eu perfformiad mewn rolau addysgu, hyfforddi ac asesu. Mae'r arweiniad ar gyfer graddio yn glir iawn, a chaiff nodweddion ar gyfer pob gradd eu cyhoeddi ar gyfer pob agwedd ar yr arsylwi. Mae pob arsylwi'n arwain at gynllun gweithredu; mae'r rhain yn cysylltu'n effeithiol â phrosesau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a rheoli perfformiad staff. Mae Cynllun Datblygu Ansawdd wedi eu llywio'n dda gan AHAau lleol a rhanbarthol. Fodd bynnag, nid yw Cynlluniau Datblygu Ansawdd yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar dargedau SMART. Nid ydynt yn cynnwys cerrig milltir a thargedau dros dro bob tro, a methwyd nifer o derfynau amser ar gyfer gwelliannau yn y Cynllun Datblygu Ansawdd presennol. Caiff cynnydd ei fonitro'n fisol a chaiff canfyddiadau eu rhannu'n briodol ar draws y sefydliad trwy hierarchaeth o gyfarfodydd rheolaidd yn cynnwys rheolwyr a staff ar bob lefel. At ei gilydd, mae tueddiadau o ran deilliannau i ddysgwyr yn gwella, ond mae cynnydd yn amrywio rhwng canolfannau a rhaglenni hyfforddiant.

Caiff prosesau ansawdd eu rhannu ag isgontractwyr, a chaiff perfformiad isgontractwyr ei fonitro'n dda.

### Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r darparwr wedi datblygu perthynas waith dda â'i bartneriaid. Mae'r rhain yn cynnwys nifer fach o ddarparwyr hyfforddiant wedi eu hisgontractio, ac ystod eang o bartneriaid cymunedol a busnesau lleol a chenedlaethol. Mae Cyfarwyddwyr Cymru a Rheolwyr Rhaglenni Ieuenctid wedi elwa'n llawn ar y berthynas ac aelodaeth â NGC ar ôl yr uno.

Mae'r darparwr yn cynnal trefniadau ffurfiol ac effeithiol i fonitro perfformiad busnes pob un o'r isgontractwyr, yn ogystal â'r gwiriadau ansawdd ar berfformiad dysgwyr. Mae'n cynnwys staff isgontractwyr yn yr holl ddatblygiad staff proffesiynol priodol ac mae ganddo brosesau effeithiol ar waith i gynnal cyfathrebu gweithredol. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd a gallu rhwydd i ddarparwyr wedi eu hisgontractio fanteisio ar system gwybodaeth reoli'r darparwr.
Mae'r darparwr wedi dechrau meithrin cysylltiadau â'r sector prifysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys rhai prosiectau ar y cyd ym maes y gwyddorau cymdeithasol, lle mae myfyrwyr prifysgol yn gweithio oddi mewn i'r darparwr i ennill profiad gwaith.

Trefnodd y myfyrwyr prifysgol seremoni gyflwyno yn y brifysgol i'r darparwr. Darparodd hyn ddelfryd ymddwyn da i'w ddysgwyr.

Mae gweithgareddau partneriaeth y darparwr yn gweithio'n dda ym mhob un o'r canolfannau hyfforddi. Mae llawer o Reolwyr Rhaglenni Ieuenctid yn rhan o gonsortia lleol i ddysgwyr 16-19 oed. Mewn un achos, cyflwynodd staff canolfan hyfforddi'r darparwr sesiwn i godi ymwybyddiaeth o ddysgu yn y gwaith mewn ysgolion lleol.

Mae'r darparwr wedi gallu meithrin ystod eang iawn o bartneriaid cymunedol effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys Gyrfa Cymru, nifer fawr o fudiadau gwirfoddol, elusennau a phrosiectau arbennig, fel y prosiect Troseddau a Chanlyniadau sy'n cael ei weithredu gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Gwna'r darparwr ddefnydd da o'r sefydliadau hyn er budd y dysgwyr. Mae'n chwarae rhan weithredol ym mhob un o'i ganolfannau hyfforddi i gynnal rhaglenni i ddysgwyr sydd mewn perygl oherwydd diffyg cyfleoedd cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Mae'r darparwr yn rhagweithiol, yn agored ac yn gynhwysol yn ei agwedd gyffredinol at bartneriaid eraill.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan y darparwr strwythur rheoli sydd wedi ei ddiffinio'n glir yng Nghymru, sy'n cael ei gynorthwyo'n dda gan NCG. Mae'r uno diweddar hwn yn dechrau gwella a chyfoethogi ansawdd ac effeithiolrwydd y rhaglenni hyfforddi. Mae wedi galluogi nifer o swyddogaethau allweddol, fel adnoddau dynol a hyfforddi staff, i gael eu canoli er mwyn i'r arbedion ariannol ddarparu darpariaeth well i ddysgwyr.

Mae'r darparwr yn defnyddio data dangosyddion perfformiad allweddol yn dda i feincnodi yn erbyn y cymaryddion cenedlaethol a darparwyr hyfforddiant eraill yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau ariannol misol i lefel swyddogion gweithredol a lefel y bwrdd. Caiff yr adroddiadau hyn eu defnyddio i adolygu ffocws a dyraniad adnoddau, prosesau a gweithdrefnau. Er enghraifft, mae gan y darparwr nifer o strategaethau adnewyddu ar waith, gan gynnwys ar gyfer adeiladau a TGCh.

Mae gan y darparwr strategaeth hyfforddi a datblygu gynhwysfawr ar waith ar gyfer yr holl staff. Mae'r Academi Arweinyddiaeth a'r Academi Rhagoriaeth yn darparu hyfforddiant i staff ar bob lefel. Gall staff a rheolwyr newydd eu penodi fynychu'r sesiynau hyfforddi hyn i ddysgu am bynciau fel addysgu effeithiol, gwneud penderfyniadau, rheoli risg, dylanwadu a chyd-drafod.

Mae gan Gyfarwyddwr Cymru gyfrifoldeb llawn dros reoli'r gyllideb yng Nghymru. Mae pob un o'r Rheolwyr Rhaglenni Ieuenctid yn atebol am eu cyfran eu hunain o'r gyllideb hon ac yn gyfrifol am reoli costau ac adnoddau, ac am fwyhau cyfraddau llenwi yn eu canolfannau.

Mae safon yr adeiladau a'r adnoddau mewn canolfannau hyfforddi yn amrywio. Mae'r darparwr yn monitro hyn yn effeithiol ac mae ganddo gynlluniau strategol ar waith i adolygu gofynion o ran adeiladau ledled Cymru.

Mae'r safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni yn ddigonol. Mae'r darparwr yn rhoi gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Rydym yn defnyddio deilliannau arolwg Llais y Dysgwr Llywodraeth Cymru i lywio pob un o'n harolygiadau o addysg a hyfforddiant ôl-16. Arolwg boddhad dysgwyr yw Llais y Dysgwr sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru rhwng Ionawr a Chwefror bob blwyddyn.

Mae'r arolwg yn gofyn ystod o gwestiynau i ddysgwyr am y themâu allweddol canlynol:

- y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a roddir iddynt
- ymatebolrwydd y darparwr, yr amgylchedd dysgu a lles myfyrwyr
- ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi
- boddhad cyffredinol

Mae pob thema yn cynnwys ystod o gwestiynau sy'n gofyn i ddysgwyr raddio perfformiad eu darparwr. Mae 28 cwestiwn i gyd.

Llenwyd yr arolwg gan ddau gant a dau ddeg naw o ddysgwyr. Mae hyn ychydig yn llai na 50% o boblogaeth dysgwyr y darparwr.

Roedd 61% o ymatebwyr o'r farn bod y darparwr yn dda iawn, ar y cyfan. Mae hyn un pwynt canran islaw cyfartaledd y sector, sef 62%. Roedd 33% arall o'r farn bod y darparwr yn dda, ar y cyfan. Roedd 89% o ymatebwyr o'r farn bod eu cwrs yn well nag yr oeddent yn ei ddisgwyl. Mae hyn yn agos at gyfartaledd y sector, sef 90%.

Cafodd y darparwr sgorau is na chyfartaledd y sector ar gyfer graddfeydd da iawn ym mhob un o bum thema'r arolwg.

Mae'r darparwr yn cyflawni sgorau 'da iawn' sydd ymhlith yr isaf yn y sector ar draws y rhan fwyaf o'r 28 cwestiwn yn yr arolwg. At ei gilydd, roedd 48% o ymatebwyr o'r farn bod addysgu a hyfforddi yn 'dda iawn' neu'n 'dda'.

Mae'r arolwg yn dadansoddi ymatebion dysgwyr yn ôl gwybodaeth ddemograffig hefyd – rhyw, oedran, ethnigrwydd ac anabledd. Yn gyffredinol, mae'r darparwr yn cyflawni sgorau 'da iawn' is na chyfartaledd y sector ar draws pob demograffig allweddol ar gyfer pob cwestiwn.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Sandra Barnard | Arolygydd Cofnodol |
| Bernard Hayward | Arolygydd Tîm |
| Vanessa Morgan | Arolygydd Tîm |
| Sally Stringer | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| John Winstone Morgan | Arolygydd Cymheiriaid |
| Steve Doodson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sian Wyn Thomas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Reginald Hughes | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gina Steele | Enwebai’r Darparwr |